Cronfa Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development Fund
BANNAU BRYCHEINIOG

# Nodyn Cyfarwyddyd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Mannau Addoli

Mae gan fannau addoli bresenoldeb hirdymor yng nghalon ein pentrefi a'n trefi. Fel adeiladau cymunedol o bwys a'u mynwentydd gwyrdd, maen nhw'n cael eu caru a'u trysori fel mannau arwyddocaol i gredinwyr ac anghredinwyr fel ei gilydd. Fe'u defnyddir ar gyfer addoliad rheolaidd ac achlysuron crefyddol, ac maen nhw'n rhan allweddol o dreftadaeth a hanes lleol (ac weithiau cenedlaethol). Yn absenoldeb unrhyw safleoedd cymunedol eraill, gall mannau addoli hefyd gynnal digwyddiadau cymdeithasol, gweithgareddau a gwasanaethau ehangach.

Er na all y Gronfa Datblygu Cynaliadwy gefnogi prosiectau o natur grefyddol yn unig, gellir ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau sydd:

a. yn galluogi adeiladau ffydd i gynnal neu ddarparu buddion neu wasanaethau cymunedol ehangach. Gall hyn olygu gwaith cadwraeth neu waith cynnal a chadw hanfodol ar yr adeiladau eu hunain, fel y gall y gymuned ehangach eu defnyddio a'u mwynhau, gan helpu i ddiogelu asedau treftadaeth ar gyfer y dyfodol;
b. yn dathlu, yn cadw, neu'n gwella asedau treftadaeth sylweddol ac yn cefnogi gweithgareddau sy'n cysylltu pobl â threftadaeth;
c. yn helpu i leihau dibyniaeth ar danwydd ffosil ac yn gwella effeithlonrwydd ynni – fel rhan o gynllun ehangach i gynyddu'r defnydd o adeiladau;
d. yn helpu i greu a gwarchod cynefinoedd ar gyfer planhigion ac anifeiliaid – yn yr adeiladau eu hunain ac unrhyw diroedd claddu o'u cwmpas.

Gall sefydlu "Grŵp Cyfeillion" eglwysig fod yn gam cyntaf defnyddiol - mae gan yr Eglwys yng Nghymru nodyn cyfarwyddyd defnyddiol ar hyn - [Ffurfio Grŵp Cyfeillion Eglwys (contentfiles.net)]

Yn ychwanegol at gwrdd â [gofynion cyffredinol y Gronfa Datblygu Cynaliadwy], mae angen i'r cynigion ddangos:

- *bod y grŵp a'r adeilad yn croesawu unrhyw un a phob un sydd am ymweld neu gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynhelir neu'r gwasanaethau a ddarperir. Dylid gwneud hyn yn glir mewn Polisi Cyfle Cyfartal ac unrhyw ddogfennau llywodraethu allweddol eraill;*
- *y ffordd y mae'r adeilad ffydd yn cael ei ddefnyddio a'r rôl y mae'n ei chwarae yn y gymuned ar hyn o bryd a'r modd y mae'n cysylltu â mannau eraill yn y gymuned leol;*
- *bod cynlluniau'n bodoli ar gyfer defnyddiau a datblygiadau i'r dyfodol - yn enwedig os oes gostyngiad yn nifer y rhai sy'n mynychu addoliad rheolaidd;*

- *eich bod mewn partneriaethau â sefydliadau lleol eraill (yn enwedig grwpiau di-ffydd) i feithrin galluoedd a sicrhau bod prosiectau'n cael eu gwreiddio yn y gymuned leol, gyda'r potensial i gyflawni effeithiau hirdymor;*
- *bod caniatadau megis Caniatâd Cynllunio/Caniatâd Adeilad Rhestredig Cyfadran yr Eglwys yng Nghymru yn eu lle;*
- *y gwahaniaeth y byddai'r gwaith a ariennir yn ei wneud, e.e. denu defnyddwyr/ grwpiau newydd, gwella hygyrchedd, darparu gwasanaethau hanfodol yn lleol, gwella effeithlonrwydd ynni;*
- *bod arian cyfatebol/adnoddau yn eu lle neu'n cael eu sicrhau;*
- *y ffordd y caiff arian ei gynhyrchu i dalu costau rhedeg/cynnal a chadw hanfodol;*
- *bod unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddir yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn deillio o ffynonellau lleol lle bo modd;*
- *y caiff contractwyr lleol eu defnyddio i wneud y gwaith lle bo modd.*

## ***Ffynonellau Ariannu a Chymorth Posibl***

Awgrymiadau ac opsiynau i'w harchwilio sydd yma, nid canllaw cynhwysfawr:

- Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru – Grantiau ar gyfer Atgyweirio, Estyn neu Ddarparu Mannau Addoli – uchafswm grant £3,000

- Ymchwil y Senedd: Adeiladau Cymunedol, Mannau Addoli a Grwpiau Ffydd (Mai 2021) community-buildings-english.pdf (senedd.wales), https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cyhoeddiad-newydd-adeiladau-cymunedol-mannau-addoli-a-grwpiau-ffydd

- National Churches Trust: grantiau, cyngor cynhaliaeth a mwy - National Churches Trust

- Y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol - Cymru | Y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol (ahfund.org.uk)

- Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol – Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth – £3,000 to £10,000 | Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

- Cronfa Deddfau Eglwysi Cymru - Powys (ar gau tan 2023) a reolir gan Sefydliad Cymunedol Cymru – Cronfa Deddfau Eglwysi Cymru - Powys – Sefydliad Cymunedol Cymru

- Cronfa Eglwysi Cymru - Sir Fynwy – Cronfa Eglwysi Cymru – Sir Fynwy

- Cronfa Eglwysi Cymru - Sir Gâr – Cronfa Eglwysi Cymru - Sir Gâr (llyw.cymru)

- Dod o Hyd i'r Cyllidwyr Gorau ar gyfer Eglwysi - cronfa ddata danysgrifiol - Finding the best funders for churches | Church Grants

- Mae'r Eglwys yng Nghymru yn cynnig nodiadau cyfarwyddyd ar ystod eang o bynciau - gweler ei thudalennau gwefan ar Eiddo'r Eglwys yma Eiddo'r Eglwys – Yr Eglwys yng Nghymru

**Mannau Gwyrdd a Mynwentydd**

- Gofalu am Fynwentydd - Caring For God's Acre – Protecting Wildlife, Preserving Heritage, Involving People (caringforgodsacre.org.uk)

- Cynllun Gwobrwyo Eglwysi Eco - Eco Church - An A Rocha UK Project